

## Cyrn carw o Lyn Cerrig y Rhwydwr, afon Glaslyn ger Prenteg, Gwynedd.

Mawrth 2021, gan Math Williams

Mae criw Llên Natur wedi bod yn trawsgrifio dyddiaduron Owen Edwards, Fron Olau, Penmorfa (fferm ger Prenteg, Gwynedd). Dechreuant ym 1820. Mae'r cofnodion i'w gweld ar wefan Llên Natur. Yn eu plith mae cofnod am gyrn carw a dynnwyd o'r afon Glaslyn:

<https://www.lleennatur.cymru/Y-Tywyddiadur?keywords=Pen-carw>

*"...Elin a minau yn mynd yn y Prydnhawn i Dy Mr. Owen Aberglaslyn yn gweled yno ddarn o asgwrn pen Carw a dau gorn y'nghlwm [sic] ynddo yn ddwy droedfedd o hyd a phedair Caingc [sic] ar bob un ac yn ddwyfodfeddarbymtheg a hanner o led o flaen i flaen wedi eu cael yn llyn Cerrigyrhwydwr wrth dynnu rhwyd ychydig o ddyddiau yn ôl gan Richd. William Tailiwr sydd yn byw yn Aberglaslyn. tebygyd ar yr olwg oedd arno ei fod yno er's amryw flynyddau!!! Yn dyfod adref cyn naw o'r gloch."*

Nid oes ceirw yn Eryri heddiw ond, a oedd ceirw yno ym 1820? A ble mae "llyn Cerrigrhwydwr"?

Dwy rywogaeth o garw sy'n gynhenid i Gymru a Phrydain sef y carw coch (*Cervus elaphus*), a'r iwrch (*Capreolus capreolus*). Yn ogystal â'r rhain, mae yma hefyd, geirw â smotiau gwyn, y danas (*Dana dana*), a gyflwynwyd yn ôl pob tebyg, gan y Normaniaid,. Roedd elc (*Alces alces*) yma wedi'r Oes Iâ; ond roeddent wedi diflannu erbyn dechrau'r Oes Haearn, tua 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae dyddiadur Owen Edwards yn disgrifio cyrn y carw coch.



carw coch



iwrch



danas

Roedd gweld y carw coch i'r de o Efrog yn anghyffredin erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg; ac erbyn 1700 roeddent wedi eu cyfyngu i ychydig leoliadau yng Nghymru, Lloegr a de'r Alban. [Roedd hyn yn ganlyniad o or-hela a cholli cynefin](#). Cyfnod y Tuduriaid, ar ôl gwrthryfel Owain Glyndŵr oedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Dyma pryd yr ail-drefnwyd daliadaeth tir yng Ngwynedd (rhai ardaloedd am y tro cyntaf ers y Goresgyniad ym 1282), ail-sefydlwyd cyfraith gwlad y tîrffeddiawyr, ac roedd llawer o adeiladu newydd (patrwm tai Eryri) a chlirio coetiroedd. A oedd hyn i gyd yn ddigon i achosi ceirw coch ddiflannu o Eryri?

Ond er mawr syndod i'r mwyafrif ohonom mae'n siŵr, amcangyfrifwyd ym 1995 bod 50 o geirw coch yng Nghymru, a'r rheini o gwmpas Y Trallwng, yn sir Fynwy a Llŷn. (Harris,S., Morris,P., Wray,S. & Yalden,D.W. (1995) A Review of British Mammals: Population Estimates and Conservation Status of British Mammals Other than Cetaceans. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough ([JNCC download page](#))). Mae'n bosib felly, mai cynn crwydryn anghyffredin o garw lleol a fu farw yn y degawdau cyn 1820 oedd y carw a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig y Rhwydwr.

A ble mae "llyn Cerrigrhwydwr"? Yn ôl Gwilym Gelli, argae bach oedd llyn Cerrig y Rhwydwr yn darparu dŵr i olwyn Ffatri (wlân) Glaslyn ger Pont Cerrig y Rhwydwr (SH 589 429). Roedd yr argae mewn ceunant tua 300m i'r gorllewin a 150m uwchlaw Ffatri Glaslyn ond, mae'n annhebyg i'r argae fod mewn bodolaeth ym 1820 (adeiladwyd Ffatri Glaslyn tua 1860). Mae Pwll Cerrig y Rhwydwr ar yr afon Glaslyn tua 200m i'r gogledd ddwyrain o Ffatri Glaslyn. Mae'n adnabyddus fel pwll pysgota heddiw. Mae'n debyg fod siâp y pwll ym 1820, cwta 11 mlynedd ar ôl cau Traeth Mawr gan Y Cob, Porthmadog, yn dra gwahanol i'w siâp heddiw. Mae'r afon yma yn dilyn sianel wedi'i chloddio yn hytrach na chwrs naturiol afon mewn aber sy'n crwydro ar hyd y blynyddoedd. Dengys mapiau o ddiwedd c19 glawdd mawr syth yn ffinio ochr orllewinol yr afon am ryw 800m o boptu pwll Cerrig y Rhwydwr. Ein casgliad felly yw bod "llyn Cerrigrhwydwr" yn ôl dyddiadur 1820 Owen Edwards yn cyfeirio at bwll Cerrig y Rhwydwr ar yr afon Glaslyn er, tebyg bod ei siâp a'i faint yn wahanol i'r pwll heddiw.

Ai cynn o'r cyfnod a ddarganfuwyd ym 1820? A oes posib eu bod yn perthyn i oes cynt, gannoedd neu filoedd o flynyddoedd ynghynt? I geisio ateb rhaid gwybod a yw asgwrn cynn yn goroesi neu'n pydru mewn gwaddod afon?

O chwilota ar y we gwelwn fod cynn ceirw wedi eu darganfod mewn sawl cloddiaid archeolegol heblaw mewn mawr neu mewn ogof sych (llefydd nad ydynt yn pydru); ac mae rhai mor hen â'r Palaeolithig. Er enghraifft, darganfuwyd 227 o gyrn ceirw o safle Mesolithig Star Carr, mewn gwaddod dwrlawn cyn llyn: <https://archaeology.co.uk/articles/reviews/museum/review-a-survival-story-prehistoric-life-at-star-carr.htm>

Mewn papur ymchwil ar bydredd asgwrn a chynn tros amser [https://researchportal.port.ac.uk/portal/en/theses/studies-on-the-degradation-of-horn-antler-and-ivory-at-archaeological-sites\(ed26d61a-59db-4a56-ad8b-c70cd6248ac7\).html](https://researchportal.port.ac.uk/portal/en/theses/studies-on-the-degradation-of-horn-antler-and-ivory-at-archaeological-sites(ed26d61a-59db-4a56-ad8b-c70cd6248ac7).html) darllener:

*"At the marine site, the slightly alkaline aerobic environment caused rapid degradation of protein by a combination of microbial attack and chemical hydrolysis, whereas the mineral component, hydroxyapatite, was protected by the seawater, leading to survival of antler and ivory but rapid degradation of horn. The brackish wetland proved to be the most protective for antler and ivory due to the waterlogged, reduced environment and presence of fine estuarine silt."*

Mae'r frawddeg olaf yn disgrifio gwaddodion Traeth Mawr i'r dim. Gwyddom hyn o gofnodion tyllau hyd at 50m o ddyfnder ar hyd llwybr ffordd osgoi Porthmadog (<https://mapapps.bgs.ac.uk/geologyofbritain/home.html>). Gwaddodion silt sydd yn y tyllau gan fwyaf, ag ychydig o dywod a chlai. Cânt eu nodi fel "alluvium", sef gwaddod afon, nid gwaddod môr na thraeth. Tuag at Benmorfa, ger cylchdro Tremadog, mae 30m o waddod afon ar ben rhewglai

(till). Mae'r gwaddodion wedi eu rhydwythio (reduced), nid wedi eu hocsieiddio (ac mae hyn i'w ddisgwyl mewn gwaddodion afon neu aber dyfnach na rhyw fetr neu ddwy; ystyriwch laid llwyd-ddu, gludiog, drewllyd). Mae'r gwaddodion yn cynnwys malurion cregyn (cregyn dŵr croyw?) a deunydd organaidd mewn gwahanol dyllau ac o unrhyw ddyfnder hyd at 50m: ac mae'n dangos nad yw popeth calch nac organaidd wedi pydru yng ngwaddodion Traeth Mawr.

Sut bod gwaddodion afon Traeth Mawr yn ymestyn o leiaf 50m yn is na'r datwm môr presennol? Mae'r gwaddodion afon yma ar ben rhewglai'r Oes lâ (mewn manau beth bynnag); ac adeg dyddodi'r rhewglai roedd lefel y mor 120m yn is nac yw heddiw, a'r arfordir hanner ffordd i lwerddon! Cwm afon oedd Traeth Mawr hyd i'r môr gyrraedd rhwng 7,000 a 4,000 o flynyddoedd nôl wrth i lefel y môr godi o 4m yn is nac yw heddiw i 1m yn is nac yw heddiw. Oddi ar y cyfnod hynny hyd cau Y Cob yn 1811 mae Traeth Mawr wedi bod yn aber rhwng dau lanw.

Mae'n bosib felly, fod y cynn carw wedi bod yng ngwaddod gwely'r afon am gannoedd o flynyddoedd (ar ddyfnder o 2m i 4m o dan dir Traeth Mawr), ac mai newid yng nghwrs yr afon Glaslyn a rhywyd y pysgotwr wnaeth ei ddatgelu.

Casgliadau...

Efallai bod cynn carw pwll Cerrig y Rhwydwr wedi eu taflu i'r afon o dŷ crand i fyny'r afon gan bobl nad oeddynt bellach eisiau cynn y carw y gwnaethant eu saethu tra ar wyliau yn yr Alban. Efallai bod y cynn yn perthyn i mai e garw anghyffredin a oedd wedi crwydro i'r ardal o bell rwydwr anghyffredin Glaslyn afon yn y degawdau cyn 1820. Ond Ac mae hi'n bosibl bod y cynn rhain wedi gorwedd yng yr afon ers canrifoedd a'u bod yn dyddio o gyfnod pan oedd ceirw coch yn rhodio Eryri, cyn iddynt gael eu difa gan hela.

**Commented [n1]:** Dwi'm yn siwr mod i'n dallt hwn! Deud wyt ti bod y carw di crwydro'n anghyffredin o bell o'r Trallwng wyt ti a'i fod o wedi marw yn y blynyddoedd cyn i'r dyddiadur gael ei ysgrifennu?

**Formatted:** Not Highlight